

## Ein cais am Drwydded Amgylcheddol Gweithgareddau Gollwng Dŵr Gweithredol

Mehefin 2018



### Pam mae angen dŵr

Mae Pŵer Niwclear Horizon yn bwriadu adeiladu a rhedeg Wylfa Newydd, Gorsaf Bŵer niwclear newydd ar Ynys Môn.

Fel pob gorsaf bŵer sy'n cynhyrchu stêm i greu ynni (sy'n cynnwys gorsafoedd pŵer niwclear), mae angen system oeri ar Wylfa Newydd er mwyn tynnu'r stêm drwy'r tyrbin, ac wedyn ei gyddwysu yn ôl i ddŵr er mwyn ei aildefnyddio.

Bydd Wylfa Newydd yn defnyddio hyd at 130 metr ciwbig o ddŵr môr yr eiliad i oeri'r cyddwysydd tyrbin stêm a systemau eraill (a ddisgrifir fel 'dŵr oeri'), a fydd wedyn yn cael ei ddychwelyd i'r môr.

Mae angen i Horizon gael Trwydded Amgylcheddol gan Gyfoeth Naturiol Cymru i ryddhau'r dŵr oeri i'r môr, yn ogystal ag i gyflawni gweithgareddau cysylltiedig eraill wrth weithredu'r Orsaf Bŵer.

Mae Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU (UK ABWR) wedi cael ei ddylunio i leihau unrhyw effeithiau posibl ar yr amgylchedd morol. Rydyn ni wedi cynnal asesiad cynhwysfawr o'r effeithiau amgylcheddol posibl i gefnogi ein prif gais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO), yn ogystal â'n cais am Drwydded Amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys gwaith modelu manwl o'r amgylchedd morol ac arolygon helaeth o'r organebau sydd yn y môr o amgylch Ynys Môn.

# Ein cais am Drwydded Amgylcheddol Gweithgareddau Gollwng Dŵr Gweithredol

## Sut bydd y dŵr yn cael ei ddefnyddio

Bydd dŵr yn cael ei ddefnyddio a'i reoli yn yr Orsaf Bŵer weithredol mewn sawl ffordd:

- bydd **dŵr oeri** yn cael ei dynnu i'r Orsaf Bŵer yn y strwythur sugno ym Mhorth-y-pistyll ac yn cael ei ollwng mewn man gollwng ym Mhorth Wnal;
- bydd **elifion proses** yn cael eu trin ar y safle neu'n cael eu cadw i'w hailddefnyddio pan fo'n bosibl er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o ollyngiadau;
- bydd **dŵr glaw ffo ar yr wyneb** yn cael ei gasglu, ei reoli ac yna ei ollwng naill ai drwy'r man gollwng dŵr oeri neu drwy'r manau gollwng dŵr wyneb i'r môr, gan ddibynnu ar lle mae'n digwydd;
- bydd dŵr môr o'r **system achub a dychwelyd pysgod** yn cael ei dychwelyd i'r môr; a
- bydd **pysgod** sy'n hel ar y sgrin sugno dŵr yn cael eu dal a'u dychwelyd gyda dŵr y môr.

## Ein cais i Gyfoeth Naturiol Cymru

Mae Horizon wedi gwneud cais i Gyfoeth Naturiol Cymru am Drwydded Amgylcheddol Gollwng Dŵr Gweithredol. Mae ein cais yn disgrifio'r holl waith rydyn ni'n ei gynnig yn fanylach, a'r mesurau byddem ni'n ei gymryd i reoli faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio a'i ryddhau o Safle'r Orsaf Bŵer.

Mae ein cais yn cynnwys:

- manylion y broses sugno a gollwng dŵr oeri, llif y llanw a nodweddion eraill a allai ddylanwadu ar lefel yr effaith amgylcheddol;
- sut byddwn ni'n rhoi offer a systemau monitro ar waith;
- manylion am ein hasesiad cynhwysfawr o effeithiau amgylcheddol posibl y gweithgareddau hyn; a
- sut rydyn ni'n dangos drwy asesiadau y byddai effaith fach iawn gyffredinol ar yr amgylcheddol morol, dim effaith ar Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd, gyda dim effaith niweidiol ar Ynysoedd y Moelrhoniaid na chyrrff dŵr Gogledd Ynys Môn.

## Y camau nesaf

Ar ôl cyflwyno ein cais, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ac yn cynnal ei asesiad ei hun o'r effeithiau amgylcheddol posibl cyn ystyried a yw am gyhoeddi Trwydded Amgylcheddol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn [www.horizonnuclearpower.com/hafan](http://www.horizonnuclearpower.com/hafan) weld copi o'n cais llawn, yn ogystal â'r dogfennau ategol.